# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Mai 2005

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gynllun gwella ffordd yr A470 o Gwmbach i'r Bontnewydd ar Wy. (WAQ42933)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pryd y bydd y Gweinidog yn gwneud ei benderfyniad ar ba lwybr a ddewisir ar gyfer cynllun ffordd osgoi'r A470 y Bontnewydd ar Wy. (WAQ42934)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gynlluniau i fynd i'r afael â llygredd yn sgîl y plaladdwr cypermetherin yn Nyffryn Teifi ac mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. (WAQ42935)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A oes unrhyw gynlluniau i reoleiddio'r defnydd a wneir o'r plaladdwr cypermetherin gan ffermwyr yng Nghymru neu i gyflwyno dewis amgen sy'n llai niweidiol i'r amgylchedd. (WAQ42936)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Ymhellach i'w ateb i WAQ42632, a gyflwynwyd i'w ateb ar 3 Mai yngl•n a safleoedd addas ar gyfer gweithgaredd beiciau modur oddi-ar-y-ffordd, a all y Gweinidog restru'r awdurdodau lleol y mae'r Llywodraeth yn cydweithio â hwy i ganfod safleoedd peilot addas. (WAQ42938)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa gymorth y bydd y Gweinidog yn ei roi i'r ymgyrch "I Can't Wait" i gynyddu ymwybyddiaeth o awtistiaeth (WAQ42937)